

## Dal dy law

---

---

**Cysyniadau:**           **Helpu eraill, cyfeillgarwch, gofal,  
penderfyniad, ufudd-dod.**

**Amcan:**               **Dangos cydymdeimlad a thosturi tuag at  
eraill.**

**Cyfarpar:**           **Dim.**

### **Cyflwyniad:**

● Yr arweinydd i wneud arwyddion â'i law. Codi llaw, ysgwyd llaw efo un o'r plant, pwyntio bys, cau dwrn. Holi'r plant beth ydi ystyr y gwahanol ddefnydd o'r llaw.

● Dweud ei fod am symud ymlaen i'r dyfodol. Y fi ydi'r athro, ac rwy'n holi'r plant am eu gwaith cartref. Dweud wrth y plant yn y ffrynt am godi bys (bys yr uwd sef y bys agosaf at y bawd) ac yna bydd yntau'n cyffwrdd â'r bysedd yn eu tro. Yna dweud wrth y plant bod eu gwaith cartref wedi mynd yn syth i'r cyfrifiadur neu'r ffôn. Yna cyffwrdd â'r oriawr a bydd yr oriawr yn cywiro'r gwaith cartref. Ymhen munud neu ddau cyffwrdd â bysedd y plant yn y ffrynt a dweud eu bod wedi cael y gwaith cartref yn ôl wedi'i gywiro.

● Egluro bod cwmni dychmygol yng Nghaerdydd wedi dyfeisio'r dull hwn – Rhwydwaith Cyffyrddiad Personol neu Rh.C.P. – a bod gwybodaeth yn mynd o un unigolyn i'r llall drwy gyffwrdd yn unig. Efallai y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol!

● Mae cyffwrdd efo'r llaw wedi bod yn ffordd effeithiol o gyfathrebu ar hyd yr oesoedd. Mae cyffyrddiad yn rhoi negeseuon yr ydym i gyd yn hoffi'u clywed: cael ein derbyn, cyfeillgarwch, cydymdeimlad a chariad.

- Mae ysgwyd llaw yn golygu ein bod yn derbyn y person arall fel ffrind. Yn aml iawn mae arweinwyr y gwledydd yn ysgwyd llaw sy'n arwydd eu bod yn dod i gytundeb â'i gilydd.
- Mi allwn ddefnyddio'n dwy law i gofleidio rhywun a phan fo rhywbeth drwg yn digwydd fe allwn roi ein dwylo'n dynn am rywun.

Dyma stori am Iesu'n defnyddio ei ddwylo:

**Stori:**

*Pan oedd Iesu ar daith drwy ardal y deg dinas, y Decapolis, daeth criw o bobl i'w gyfarfod. Fe ddaethon nhw â dyn mud a byddar ato. Doedd y dyn ddim yn medru siarad na chlywed. 'Os gweli di'n dda wnei di helpu'r dyn yma?' meddai un ohonyn nhw. 'Gwna fo'n iach unwaith eto.'*

*Aeth Iesu â'r dyn o'r neilltu er mwyn cael bod ar ei ben ei hun gydag ef. Rhoddodd ei fysedd yng nghlustiau'r dyn byddar a rhoi peth o'i boer ar dafod y dyn. Gweddiodd dros y dyn gan ofyn am help Duw.*

*'Agora,' meddai Iesu yn ei iaith ei hun.*

*Gallai'r dyn glywed! Gallai'r dyn siarad! Yn sydyn, doedd dim taw arno!*

*Roedd ei ffrindiau a'r dyrfa wedi gwirioni.*

*Dywedodd Iesu wrth y dyrfa am beidio â sôn gair wrth neb, ond doedd neb yn barod i wrando. Dyna oedd unig sgwrs pawb, yr hanes am Iesu yn gwella'r dyn ac yntau wedyn yn gallu siarad a chlywed.*

Beibl Lliw Stori Duw t. 245

A dyma stori arall am Iesu yn helpu merch fach:

**Stori:**

*Tra oedd Iesu'n siarad, roedd rhyw bobl o dŷ Jairus wedi cyrraedd, a dweud wrtho, "Mae dy ferch wedi marw ..."*

*Ond chymerodd Iesu ddim sylw o beth gafodd ei ddweud, dim ond dweud wrth Jairus, "Paid bod ofn; dalia i gredu."*

*Dim ond Pedr, Iago a'i frawd Ioan gafodd fynd yn eu blaenau gyda Iesu. Dyma nhw'n cyrraedd cartref Jairus, ac roedd y lle mewn cynnwrf, a phobl yn crio ac yn udo mewn galar. Pan aeth Iesu i mewn dwedodd wrthyn nhw, "Beth ydy'r holl sŵn yma? Pam dych chi'n crio? Dydych chi'n ferch fach ddim wedi marw – cysgu mae hi!" Dechreuodd pobl chwerthin am ei ben, ond dyma Iesu'n eu hanfon nhw i gyd allan o'r tŷ. Yna aeth â'r tad a'r fam a'r tri disgybl i mewn i'r ystafell lle roedd y ferch fach. Gafaelodd yn ei llaw, a dweud wrthi, "Talitha cŵm" (sef "Cod ar dy draed, ferch fach!") A dyma'r ferch, oedd yn ddeuddeg oed, yn codi ar ei thraed a dechrau cerdded o gwmpas.*

Marc 5:35–42 beibl.net

### **Trafodaeth:**

Iesu'n defnyddio bysedd ei law yn y stori gyntaf a'i law i afael yn llaw y ferch yn yr ail stori.

Trafod oblygiadau'r cyffyrddiadau.

### **Emyn: Dod ar fy mhen dy sanctaidd law: Canu Clod 127**

#### **Munud i feddwl:**

Mae gan bob un ohonom ddwy law. Un i helpu'n hunain a'r llall i helpu eraill.

#### **Myfyrdod/Gweddi:**

O Dduw, helpa fi i ddefnyddio fy nwylo i wneud y gorau i bobl eraill. Diolch. Amen.